



Ymgynghoriad ar Gyfuno Arfaethedig

Ysgol Maelgwn

ac

Ysgol Nant y Coed

**Cyffordd Llandudno, Conwy a'r Trefniadau Dros Dro hyd
nes bod yr Adeilad Ysgol newydd ar Safle Esgyryn ar gael
i'w Feddiannu**

Cynnwys

i	Cyflwyniad a Chefnidir	3
1	Disgrifiad a Manteision y Cynnig	3
Rhan 1		
1.1	Y Cynnig i Gyfuno'r Ddwy Ysgol Sy'n Bodoli	4
2	Manylion yr Ysgolion a Effeithiwyd	6
2.1	Ysgol Maelgwn	6
2.2	Ysgol Nant y Coed	7
2.3	Effaith ar Staff	9
2.4	Trefniadau Derbyn	9
2.5	Dalgylch	9
3	Ansawdd a Safonau mewn Addysg	9
3.1	Cwricwlwm	9
3.2	Arolwg ESTYN	10
4	Cyllid	11
5	Cyflwr Adeiladau Ysgol	11
6	Effaith ar yr Ardal	12
6.1	Defnydd Cymunedol o Gyfleusterau'r Ysgol	12
6.2	Gofal Plant y tu Allan i'r Ysgol	12
7	Effaith ar Gludiant	12
8	Effaith ar Iaith	12
9	Effaith ar Gydraddoldeb	14
10	Ymgynghori	16
	Ffurflen Adborth	18

i Cyflwyniad a Chefndir

Ar 14 Ebrill, 2015, yn dilyn cyfnod o ymgynghori, rhoddodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ganiatâd ffurfiol i gau Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed o'r 31ain Awst, 2016 a sefydlu ysgol Gynradd Gymunedol Ddwyr Ffrwd ar safle Esgyryn o 1af Medi, 2016.

Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau amrywiol, ni fydd yr adeilad ysgol newydd ar safle Esgyryn yn barod mewn pryd ar gyfer 1 mis Medi, 2016 fel y cynnigiwyd. Gan nad oes modd i newid y cynnig gwreiddiol i gymryd hyn i ystyriaeth, rhaid i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad newydd ar y sefyllfa o fis Medi 2016 tan fydd yr adeilad ysgol newydd yn barod i'w feddiannu.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r wybodaeth y bydd ei angen ar ymgynghoreion fel y gallant gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddiol fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Mae'r ymgynghoriad yn ail-nodi'r sefyllfa blaenorol ynghylch cau Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed ac agor ysgol ardal newydd ar safle Esgyryn.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ymwneud â'r cynigion ar gyfer darpariaeth addysg gynradd yng Nghyffordd Llandudno rhwng mis Medi, 2016 ac phryd y bydd adeilad yr ysgol newydd ar gael.

Mae'r ddogfen ymgynghori mewn dwy ran.

Mae Rhan 1 yn ail-ddatganiad o'r ymgynghoriad blaenorol ar gau'r ddwy ysgol bresennol ac agor yr ysgol newydd ar safle Esgyryn pan fydd yr adeilad ar gael.

Mae Rhan 2 yn ymwneud â'r trefniadau eraill y gellir eu rhoi ar waith o fis Medi 2016 tan fydd yr adeilad ysgol newydd ar gael.

Mae'r cyfnod ymgynghori statudol yn:

- **Dechrau ar 11/5/2016; ac**
- **Yn gorffen ar 22/6/2016.**

1. Disgrifiad a Manteision y Cynnig

Trwy ei Raglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi bod yn adolygu niferoedd y disgyblion presennol, cydraddoldeb ariannu ar gyfer disgyblion ac addasrwydd adeiladau ysgol presennol yn yr Awdurdod. Bu'r Awdurdod Lleol yn trafod gyda rhieni, llywodraethwyr, staff a thrigolion er mwyn esbonio'r sefyllfa bresennol ac mae'n cynnig sefydlu ysgol gynradd gymunedol newydd yng Nghyffordd Llandudno. Bydd yn cael ei sefydlu trwy gyfuno Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed ac adeiladu ysgol newydd ar safle newydd yng Nghyffordd Llandudno. Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu a'i datblygu trwy raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru er mwyn lletya'r holl ddisgyblion o'r ysgolion presennol ac ardal Cyffordd Llandudno. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw cael barn trigolion, defnyddwyr posibl a rhanddeiliaid pwysig eraill.

Mae'r ymgynghori ar y sail, os bydd yn cael ei gytuno, y bydd yr ysgol yng Nghyffordd Llandudno wedi'i chyfuno yn agor ym Medi 2016, ond y bydd yn meddiannu safleoedd y ddwy ysgol bresennol hyd nes bydd yr adeilad ar safle Esgyryn ar gael. Y dyddiad diweddaraf sydd gennym ar gyfer cwblhau yr adeilad newydd yw Pasg, 2017. Hwn yw sail **Rhan 1** o'r ddogfen ymgynghori hon.

Yn ystod y cyfnod pan fydd yr ysgol wedi ei sefydlu ar safleoedd y ddwy ysgol bresennol, mae dau opsiwn yn cael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad. Y ddau opsiwn yw:

- 1a Y byddai'r disgyblion Cyfnod Sylfaen yn cael eu haddysgu ar safle presennol Ysgol Nant y Coed, ac y byddai disgyblion Cyfnod Allweddol 2, yn cael eu haddysgu ar safle yr Ysgol Maelgwn presennol.

NEU

- 3 Y byddai y disgyblion gan fwyaf yn cael eu haddysgu ar eu safleoedd presennol, ond mewn gwahanol ddosbarthiadau a chyda gwahanol athrawon.

Nodwch eu bod wedi eu nodi fel 1a a 3 gan mai felly yr oeddent wedi eu nodi yn ystod yr ymarfer gwerthuso dewisiadau ac asesiad risg a wnaed gan y Corff Llywodraethol Dros Dro.

Mae'r ddau opsiwn yn cael eu hamlinellu yn fanwl yn **Rhan 2** o'r ddogfen ymgynghori hon.

Ymhob achos bydd ar y cynigion a ddygir ymlaen gan yr Awdurdod Lleol sy'n cynnal angen penderfyniad Gweithredol yr Awdurdod Lleol; sy'n golygu y bydd unrhyw wrthwynebiad ffurfiol a geir trwy'r broses statudol yn cael ei ystyried a'i benderfynu gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dim ond gwrthwynebiad awdurdod lleol fydd yn gofyn am gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ble nad yr Awdurdod Lleol yw'r cynigydd.

Rhestrir isod y rhai yr ymgynghorir â hwy:-

Enw/sefydliad
Rhieni, athrawon a staff Ysgol Nant y Coed ac Ysgol Maelgwn
Llywodraethwyr Ysgol Nant y Coed ac Ysgol Maelgwn
Penaethiaid a llywodraethwyr Ysgol Deganwy, Ysgol Porth y Felin ac Ysgol Glan Conwy
Esgobaeth Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig Wrecsam

Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Ddinbych
Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd
Gweinidog dros Addysg a Sgiliau
Adran Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgol Llywodraeth Cymru
Yr Aelod Cynulliad a'r Aelod Seneddol sy'n cynrychioli ardal y cynnig
Cynghorydd lleol Conwy ward Marl a Pensarn
Cyngor Tref Conwy
Estyn
Undebau llafur athrawon a staff
GwE
Taith
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
PPPI Conwy
Cymunedau'n Gyntaf Conwy
Dechrau'n Deg Conwy

Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng 11 Mai a 22 Mehefin, 2016.

Ni fydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal cyfarfod cyhoeddus fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, fodd bynnag, bydd y corff Llywodraethol Dros Dro yn cynnal achlysur galw heibio rhwng 3 y.p. - 7:00 y.p., dydd Iau, 26 Mai a 09:30 y.b.-1:00 y.p., Dydd Gwener, 27 Mai yng Nghanolfan Fusnes Conwy i'ch helpu chi i ddeall sut y gall y gwahanol opsiynau effeithio ar addysg y disgyblion. Bydd staff o Wasanaethau Addysg Conwy ar gael i gymryd eich ymatebion i'r ymgynghoriad.

Bydd adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ar 28 Mehefin, 2016 am benderfyniad ar ba opsiwn i fwrw ymlaen ag ef.

Hoffem gael eich barn ar y cynigion hyn gan awgrymu sut gallwch wneud hyn ar ddiwedd y ddogfen hon.

Rhan 1

Y cynnig i gau Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed, Cyffordd Llandudno ar 31 Awst, 2016 ac agor ysgol ardal newydd ar ddau safle hyd nes y bydd yr adeilad ysgol newydd ar gael.

1.1 Y Cynnig i Gyfuno'r Ddwy Ysgol Sy'n Bodoli

Fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd mae Gwasanaethau Addysg Conwy wedi ymgynghori gyda rhieni, staff, llywodraethwyr, disgyblion a chymunedau ehangach Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed. Yn ystod 2011 casglwyd gwybodaeth allweddol i gefnogi cwblhau asesiadau effaith ar iaith, cymuned, cludiant, cydraddoldeb ac adeiladau 'addas i'r pwrpas' a chynhaliwyd a chwblhawyd gwerthusiad dewisiadau cysylltiedig gan Wasanaethau Addysg Conwy.

Bu i bob asesiad effaith a'r gwerthusiad dewisiadau ystyried 4 dewis ar gyfer yr ardal, sef;

- Adeiladu ysgol ardal newydd ar safle Albini
- Adeiladu ysgol ardal newydd ar safle Esgyryn
- Cadw'r ysgolion presennol ac
- Ysgol ardal ar y ddau safle sy'n bodoli.

Bu i'r Gwasanaethau Addysg ymgynghori gyda'r ysgol, disgyblion a'r gymuned er mwyn trafod y dewisiadau ar gyfer ardal Cyffordd Llandudno. Bu i'r gwerthusiad dewisiadau edrych ar amrywiol effeithiau bob dewis, adborth o weithdai'r plant a gynhaliwyd gyda disgyblion o'r ddwy ysgol yn Chwefror 2011 a'r adborth a gafwyd gan y gymuned ar y strategaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

Ym Medi 2011 cytunodd Cabinet Conwy i symud ymlaen gyda'r dewis i adeiladu ysgol newydd ar safle Albini House. Ysgol ardal ar un safle newydd oedd y dewis a gytunwyd oherwydd cyfyngiadau o ran adeiladu ar y safleoedd ysgol oedd yn bodoli, a fyddai'n tarfu'n sylweddol ar ddisgyblion a staff. Byddai dewis 3 a 4 hefyd wedi golygu y byddai'r costau adeiladu a NPV yn sylweddol uwch na dewisiadau 1 a 2.

Yn ystod 2012 nid oedd safle Albini House bellach ar gael a chytunodd y Cabinet i symud ymlaen gydag ysgol ardal ar safle Esgyryn. Rhannwyd yr wybodaeth hon gyda rhanddeiliaid allweddol y ddwy ysgol.

Yn ystod y cyfnod interim bu i swyddogion o Wasanaethau Addysg drafod gyda phenaethiaid Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed mewn perthynas â threfniadau a phrosesau dylunio a datblygu ffurfiol ar gyfer yr ysgol newydd ar safle Esgyryn.

Bydd y cynnig i gyfuno Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed yn golygu cau'r ddwy ysgol yn ffurfiol ac agor ysgol gynradd gymuned newydd ar safle Esgyryn.

Safle Esgyryn – Ysgol Ardal Newydd i Gyffordd Llandudno



Bydd yr ysgol ardal newydd yng Nghyffordd Llandudno yn darparu 432 o leoedd i ddisgyblion 3 - 11 oed. Bydd yr ysgol yn darparu 7 dosbarth i ddisgyblion meithrin a chyfnod sylfaen a 8 dosbarth i ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Bydd cyfleusterau eraill (di-ysgol) wedi eu lleoli ar safle'r ysgol yn darparu adnoddau ar gyfer Cylch Meithrin a meithrinfa breifat.

Yn ogystal â lle addysgol ffurfiol bydd yno hefyd gyfleusterau yn darparu ystafelloedd anogaeth, ystafelloedd grŵp, neuadd ysgol, stiwdio, mynediad at TGCh ym mhob ardal a lleoedd staffio gan gynnwys swyddfeydd ac ystafell staff anffurfiol.

Yn allanol bydd digon o le ar gyfer meysydd chwaraeon, cwrt gemau, ardaloedd chwarae caled a meddal ac ardaloedd cynefin a thirwedd sy'n addas ar gyfer y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Bydd yr ysgol ardal newydd yng Nghyffordd Llandudno hefyd yn cynnwys dwy uned nam iaith penodol (NIP). Bydd yr unedau cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion sydd angen therapi iaith a lleferydd tra'n annog ymgynnwys i ysgolion prif ffrwd mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Adnodd NIP (Nam Iaith Penodol) Cyfnod Allweddol 1

Adnodd cyfnod allweddol 1 yw hwn i blant ifanc sydd â nam iaith penodol. Mae'n adnodd llawn amser (bore a phrynhawn) i hyd at 10 disgybl. Mae'r adnodd yn cael ei redeg gan athro a chymhorthydd addysgu sy'n gymwys ac yn brofiadol i gefnogi plant ifanc sydd â NIP. Mae'r adnodd hefyd yn cael ei gefnogi gan therapydd iaith a lleferydd dynodedig sy'n darparu sesiynau therapiwtig rheolaidd i bob disgybl a gwybodaeth a chynghor cyffredinol i athro'r adnodd. Mae'r ddarpariaeth hwn yn adnodd dwyieithog ac mae cyfleoedd rheolaidd i'r plant integreiddio i'r sesiynau prif ffrwd yn ystod y prynhawn. Mae gan y plant ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn gcontract Gweithredu Ysgol a Mwy sy'n cael ei adolygu gan yr ALI yn flynyddol. Mae therapydd iaith a lleferydd arbenigol wedi dweud fod gan y plant ifanc sy'n defnyddio'r adnodd hwn nam iaith penodol.

Darpariaeth NIP (Nam Iaith Penodol) ac ADC (Anawsterau Dysgu Cymedrol) Cyfrwng Cymraeg Cyfnod Allweddol 2.

Adnodd cyfnod allweddol 2 cyfrwng Cymraeg yw hwn sy'n cael ei redeg gan athro a dau gymhorthydd addysg sy'n gymwys ac yn brofiadol i gefnogi plant sydd ag ADC a NIP. Mae plant sydd â NIP yn defnyddio'r uned yn ogystal â disgyblion sydd ag anawsterau dysgu cymedrol. Mae'r holl ddisgyblion yn dod i'r uned yn rhan amser ac yn ail integreiddio i'w lleoliad prif ffrwd yn ystod sesiynau'r prynhawn. Mae'r disgyblion hyn yn cael cefnogaeth sesiynol yn ystod sesiwn y prynhawn i gefnogi eu hail integreiddio. Mae gan y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn gcontract Gweithredu Ysgol a Mwy sy'n cael ei adolygu gan yr ALI yn flynyddol. Mae'r plant yn yr adnodd hwn yn cael cefnogaeth reolaidd gan therapydd iaith a lleferydd sy'n cynnwys gwaith grŵp ac amser therapi unigol.

Mae gan yr ALI ganllawiau mynediad a gadael clir ar gyfer y ddarpariaeth a ddisgrifir uchod ac mae disgyblion yn cael eu gosod yn yr adnoddau yn dilyn penderfyniad a wnaed gan gyfarfod panel cymedroli amlasiantaeth yr ALI.

Mae Gwasanaethau Addysg wedi ystyried manteision ac anfanteision disgwylledig y cynnig i gyfuno Ysgol Nant y Coed ac Ysgol Maelgwn ac maent wedi'u nodi isod:

Manteision y cynnig	Anfanteision / her y cynnig
Bydd un Pennaeth a Chorff Llywodraethol gydag ethos sy'n cael ei rannu	Oblygiadau staffio, adleoli staff posibl a/neu ddigyflogi
Un set o bolisiau ac un man cysylltu i rieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr	Datblygu heriau gweithredu dyddiol newid yr ysgol newydd wedi'i chyfuno h.y. cynllun ysgol, gwisgoedd ysgol newydd, enw ysgol newydd ayyb
Gall staff gydweithio gan greu sefydlogrwydd a rhannu gweledigaeth i ddarparu amgylchedd dysgu cyson a chynnig mwy o botensial i wella lefelau cyrhaeddiad yn yr ysgol	
Ysgol newydd 21ain Ganrif ar un safle i bob disgybl sy'n byw yng Nghyffordd Llandudno	
Mwy o ymdeimlad o gymdeithas i'r holl staff, disgyblion a rhieni	

Mae Gwasanaethau Addysg Conwy wedi ystyried unrhyw risg posibl a gysylltwyd â'r cynnig i gyfuno'r ddwy ysgol a chafwyd un risg ynghyd â'r camau i'w leihau.

Risg a gysylltwyd â'r cynnig	Camau a gymerwyd i leihau'r risg
Efallai na fydd y cynnig yn cael ei gefnogi a chymeradwyo gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Parhau i ddiweddarau aelodau'r Cabinet ynghylch cynnydd y datblygiad a Rhaglen Moderneiddio Strategol Ysgolion Cynradd trwy'r broses ddemocrataidd

2. Manylion yr Ysgolion a Effeithir

Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed – Cynllun Safle



**Ysgol Maelgwn
Broad Street
Cyffordd Llandudno
LL31 9HG**




**Ysgol Nant y Coed
Ronald Avenue
Cyffordd Llandudno
LL31 9EU**

2.1 Ysgol Maelgwn

Mae Ysgol Maelgwn wedi ei lleoli yn ardal drefol Cyffordd Llandudno yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Daw tua thraean o'r disgyblion o ardaloedd eraill cyfagos, yn cynnwys Glan Conwy, Conwy a Deganwy.

Mae gan yr ysgol naw dosbarth (55.5m^2 , 55.5m^2 , 51.7m^2 , 51.7m^2 , 54.7m^2 , 55.3m^2 , 46.6m^2 , 70m^2 a 66.7m^2). Mae'r disgyblion yn cael defnyddio ardal chwarae caled 4453m^2 , 649m^2 o ardal chwarae meddal ac ardal gynefin o 446m^2 . Hefyd mae uned ADY yn yr ysgol sy'n defnyddio lle dosbarth o 15.3m^2 a TGCh sy'n cymryd lle o 45.3m^2 .

Ysgol Maelgwn – Cynllun Ysgol



Mae adroddiad arolwg ESTYN diweddaraf Ysgol Maelgwn o 2013 yn gwneud y sylwadau canlynol ar natur a chyflawniadau'r ysgol – “Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n dysgu disgyblion sut i baratoi prydau bwyd iach. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol â thîm cynhwysiad addysg yr awdurdod lleol i gefnogi plant ag anawsterau ymddygiad. Ers ei sefydlu yn 2012, mae ystafell faethu'r ysgol yn gweithredu fel cyswllt gweithredol rhwng asiantaethau arbenigol ac yn darparu gwasanaeth cwnsela proffesiynol i ddisgyblion bregus.”

Mae gan Ysgol Maelgwn le i 228 disgybl rhwng 3-11 oed.

Nifer y disgyblion dros y pum mlynedd diwethaf

Ionawr 2012	198(29M)
Ionawr 2013	200(27M)
Ionawr 2014	201(42M)
Ionawr 2015	219 (35M)
Ionawr 2016	211 (33M)

Amcan o nifer y disgyblion dros y pum mlynedd nesaf:
(o ystadegau PLASC Ionawr 2016)

Ionawr 2017	212
Ionawr 2018	222
Ionawr 2019	225
Ionawr 2020	235
Ionawr 2021	244


Yn Ionawr 2016 roedd 211 o ddisgyblion llawn amser yn mynychu'r ysgol gyda 33 o ddisgyblion rhan amser yn y dosbarth Meithrin. (Derbyn = 33 disgybl, Blwyddyn 1 = 40 disgybl, Blwyddyn 2 = 26 disgybl, Blwyddyn 3 = 24 disgybl, Blwyddyn 4 = 31 disgybl, Blwyddyn 5 = 25 disgybl, Blwyddyn 6 = 32 disgybl).

2.2 Ysgol Nant y Coed

Mae Ysgol Nant y Coed yn nhref fechan Cyffordd Llandudno yn sir Conwy. Mae gan yr ysgol ddalgylch gwledig y mae'n ei disgrifio fel ardal sydd o dan anfantais yn economaidd. Mae 169 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. O'r rhain, mae 20 o ddisgyblion yn mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng rhywfaint dros y blyneddau diwethaf.

Mae gan yr ysgol wyth dosbarth (51.6m², 56.8m², 47.8m², 47.4m², 47.4m², 49.08m², 47.84m² a 49.3m²). Mae ystafell TGCh hefyd (49.3m²) a llyfrgell (17.3m²)

Mae gan y disgyblion ddefnydd o 7550m² o gaeau chwaraeon, 1871m² o ardal chwarae caled, ardal chwarae meddal o 3462m² ac ardal gynefin o 361m²



Mae adroddiad arolwg ESTYN diweddaraf Ysgol Nant y Coed yn 2013 yn nodi –
“Mae Nant y Coed yn gymuned ddiogel, drefnus a gofalgwr, lle caiff pawb ei werthfawrogi. Mae polisiâu a threfniadau priodol yn hyrwyddo byw yn iach a lles yn llwyddiannus. Mae gan ddisgyblion ymdeimlad cryf o berthyn yn yr ysgol, ac maent yn mwynhau bod yno. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar gynhwysiant a sicrhau lles disgyblion. Mae'r ffaith fod dosbarth meithrin wedi cael ei sefydlu yn ddiweddar, er enghraifft, eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder ac agwedd nifer o ddisgyblion targedig at ddysgu. Caiff disgyblion y cyfle i gyfrannu at ddatblygiadau yn yr ysgol ac maent yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn eu cymuned leol.”

Yn Ysgol Nant y Coed mae lle i 189 disgybl 3-11 oed.

Nifer y disgyblion dros y pum mlynedd diwethaf

Ionawr 2012	154 (22M)
Ionawr 2013	151 (21M)
Ionawr 2014	146 (22M)
Ionawr 2015	157 (20M)
Ionawr 2016	156 (20M)

Amcan o nifer y disgyblion dros y pum mlynedd nesaf:

(o ystadegau PLASC Ionawr 2016)

Ionawr 2017	157
Ionawr 2018	163
Ionawr 2019	169
Ionawr 2020	156
Ionawr 2021	133

Yn Ionawr 2014 roedd 156 o ddisgyblion llawn amser yn mynychu'r ysgol (Derbyn = 31 disgybl, Blwyddyn 1 = 27 disgybl, Blwyddyn 2 = 22 disgybl, Blwyddyn 3 = 17 disgybl, Blwyddyn 4 = 20 disgybl, Blwyddyn 5 = 20 disgybl, Blwyddyn 6 = 19 disgybl).

2.3 Effaith ar Staff

Pe byddai'r cynnig i gyfuno'r ddwy ysgol yn cael ei gymeradwyo, byddai'r corff llywodraethol dros dro yn gweithio gyda'r pennaeth ac mewn ymgyghoriad â swyddogion adnoddau dynol Addysg i lunio'r strwythur staffio ar gyfer yr ysgol newydd wedi'i chyfuno. Bydd y cynigion hyn yn darparu mwy o gyfle i ddatblygu sgiliau staff ar draws ffrwd ddeuol a chwricwlwm dwyieithog a'r posibilrwydd ar gyfer strwythurau staffio a rheoli mwy arbenigol yn yr ysgol a gyfunwyd.

Ysgol Maelgwn

Mae 9 o athrawon llawn amser yn yr ysgol, yn cynnwys y pennaeth, ynghyd â 4 o athrawon rhan amser. Mae 8 cymhorthydd addysgu sy'n cefnogi'r staff addysgu. Hefyd mae 3 aelod o staff cefnogi ADY ac uned adnoddau.

Mae gan yr ysgol un cymhorthydd gweinyddol llawn amser a chlerc cinio ysgol rhan amser, 1 gofalwr a 3 aelod o staff glanhau, hefyd mae 4 goruchwyliwr amser cinio.

Ysgol Nant y Coed

Yn Ysgol Nant y Coed mae 9 athro llawn amser yn cynnwys y pennaeth, darperir cefnogaeth i staff addysgu gan 7 cymhorthydd addysgu.

Mae gan yr ysgol 2 gymhorthydd gweinyddol, gofalwr, 2 lanhawr a 4 goruchwyliwr amser cinio.

2.4 Trefniadau Derbyn

Yn bresennol mae gan Ysgol Maelgwn rif derbyn o 32 ac Ysgol Nant y Coed rif derbyn o 27. Y rhif derbyn arfaethedig ar gyfer yr ysgol wedi'i chyfuno yw 60.

Bydd trefniadau derbyn yr ysgol newydd wedi'i chyfuno yn parhau i gael eu gweinyddu gan Wasanaethau Addysg Conwy.

Bydd grwpiau addysgu yn aros o fewn y cyfyngiad statudol o 30 disgybl mewn dosbarthiadau babanod a 30 neu lai i ddisgyblion iau.

2.5 Dalgylch

Os digwydd y cynnig i gyfuno Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed ac adeiladu Ysgol Ardal o'r newydd bydd dalgylchoedd presennol yr ysgolion yn cael eu cyfuno.

Bydd disgyblion maes o law yn trosglwyddo i'r ysgolion uwchradd priodol sef Ysgol Aberconwy, Ysgol y Creuddyn neu Ysgol Gatholig y Bendigaidd Edward Jones i barhau eu haddysg.

3. Ansawdd a Safonau mewn Addysg

3.1 Cwricwlwm

Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen byddai un ysgol gydag amrediad oed o 3 – 11, yn darparu un ai cwricwlwm cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Byddai gan blant fyddai'n cael eu derbyn i'r dosbarth derbyn yr hawl i aros yn yr ysgol hyd ddiwedd blwyddyn 6 pan fyddent yn trosglwyddo i addysg uwchradd.

Gall y berthynas rhwng y rhieni a'r ysgol ddatblygu dros gyfnod hirach a chaniatáu i'r plant i gymysgu a disgyblion o oed ehangach gan elwa eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

Bydd y berthynas rhwng y staff a disgyblion yn caniatáu i'r ysgol ddeall yn well anghenion pob disgybl a darparu hyblygrwydd cynyddol ac arbenigedd yn nhermau cyflwyno pynciau ar draws y cwricwlwm cyfan.

Mae adroddiadau arolwg ESTYN ar gyfer y ddwy ysgol yn gwneud y sylwadau canlynol ar ddarpariaeth gwricwlaidd:-

Ysgol Maelgwn - *“Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio'n bwrpasol yn y dosbarthiadau ac yn gwneud cynnydd clir yn unol â nodau'r gwersi. Mewn lleiafrif o wersi yng nghyfnod allweddol 2, nid yw disgyblion o allu is na'r disgyblion mwy galluog yn cyflawni gystal ag y gallent. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau dysgu unigol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Maent yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llafar. Mae llawer ohonynt yn medru siarad am eu gwaith yn hyderus, a mynegi eu hunain yn glir ac mewn iaith sydd yn gynyddol gywir.”*

Ysgol Nant y Coed – *“Mae ansawdd y profiadau dysgu yn dda ac yn bodloni anghenion yr holl ddysgwyr. Mae'r rhain yn amrywio o fod yn rhai yn yr ysgol i rai y tu hwnt iddi ac maent yn ennyn diddordeb pob disgybl. Mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn drylwyr. Mae eu cynllunio yn nodi medrau pwnc a medrau allweddol a gwnânt ddefnydd effeithiol o gyfraniadau disgyblion wrth gynllunio profiadau dysgu yn ymwneud â thestunau penodol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd priodol yn dda. Mae cynllunio ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau technoleg eraill ar draws y cwricwlwm yn dda iawn.”*

Byddai cyfuno yn adeiladu ar y gwaith mae'r pennaeth, staff a chyrff llywodraethol eisoes wedi'i gychwyn er mwyn gwella safonau ysgol ymhellach. Gellid adeiladu ar y gwaith da yn rhwydd; byddai cydweithio yn darparu'r manteision canlynol posibl i safonau disgyblion, gwell darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth:

- creu ethos wedi'i rannu sy'n cefnogi plant o 3 i 11 oed a darparu disgwyliadau uchel cyson i bawb
- bydd cael darpariaethau iaith y ddwy ysgol yn cydweithio agosach yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn a thu draw i'r dosbarth
- galluogi disgyblion a staff o'r ddwy ffrwd iaith i gael arbenigedd, adnoddau a chyfleusterau sy'n gysylltiedig â'r naill ddarpariaeth yn fwy rhwydd
- darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau i ddisgyblion mwy abl a thalentog a rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol
- amrywiaeth ehangach o weithgareddau 'allgyrsiol' a fydd yn elwa o fwy o adnoddau a allai fod wedi'i gysylltu â diddordeb yn hytrach nag oed
- caniatáu i'r gymuned uniaethu gydag a chefnogi un ysgol gynradd ac o bosibl darparu canolbwynt cymunedol mwy effiethiol trwy un drefn lywodraethu
- hyrwyddo mwy o ryngweithio gan ganiatau mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ychwanegol y gellid eu cefnogi gan rieni, disgyblion a staff
- lleihau dyblygu ac arbedion wrth reoli cyllidebau
- darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff a dysgu ffyrdd newydd o wneud pethau

3.2 Arolygon ESTYN

Mae ysgolion yn cael eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolwg ysgol. Pwrpas yr arolwg yw canfod nodweddion da a diffygion mewn ysgolion fel y gallant wella ansawdd yr addysg a ddarperir a chodi safonau a gyflawnir gan ddisgyblion (*Estyn*).

O ganlyniad i newidiadau a wnaed yn 2011 gan Estyn i'r meini prawf arolwg mae ysgolion yn cael eu gwerthuso trwy ofyn tri chwestiwn allweddol a dyfarniad yn seiliedig ar y raddfa pedwar pwynt canlynol:

Dyfarniad	Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu
Ardderchog	Llawer o gryfderau, gan gynnwys esiamplau arwyddocaol o ymarfer arwain sector
Da	Llawer o gryfderau a dim maes pwysig sydd angen gwelliant arwyddocaol
Digonol	Cryfderau'n fwy na'r meysydd i'w gwella.
Anfodddhaol	Meysydd pwysig i'w gwella yn fwy na'r cryfderau.

Mae barn timau arolwg Estyn ar gyfer yr ysgolion isod:

3.2.1 Ysgol Maelgwn: Medi 2013

Cwestiynau Allweddol	Barn
1 Pa mor dda yw canlyniadau?	Digonol
2 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
3 Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?	Digonol

3.2.2 Ysgol Nant y Coed: Chwefror 2013

Cwestiynau Allweddol	Barn
1 Pa mor dda yw canlyniadau?	Da
2 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
3 Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?	Da

Disgwylir i gyfuno'r ddwy ysgol gynnal y safonau sy'n bodoli a darparu cyfle i wella ymhellach o dan un corff llywodraethol gydag un ethos ac un set o bolisiau.

4. Cyllid

Cost cyfartaledd fesul disgybl yng Nghonwy yw £3,481 a chyn lleied a £3,250 mewn ysgolion gyda nifer uwch o ddisgyblion a chymaint â £10,170 mewn ysgolion gyda llai o ddisgyblion. Costau refeniw rhedeg Ysgol Maelgwn ym mlwyddyn ariannol 2014/15 yw £837,604 gyda chost cyfartaledd disgybl o £3,765. Mae costau refeniw rhedeg Ysgol Nant y Coed ym mlwyddyn ariannol 2014/15 yn £616,911 gyda chost fesul disgybl o £3,929.

Un o yrwyr Moderneiddio Ysgolion Cynradd yw cydraddoldeb ariannu i ddisgyblion a thrwy gyfuno'r ddwy ysgol bydd y gost fesul disgybl ar gyfer ardal Cyffordd Llandudno yn cael ei resymoli. Pe bai'r ddwy ysgol yn cael eu cyfuno byddai'r gost fesul disgybl yn £3,872.

Cafwyd yr arian cyfalaf ar gyfer y cynllun gan raglen ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Bydd arbedion cyllideb refeniw sy'n ail adrodd yn cael ei fuddsoddi yn Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd y Cyngor.

Byddai adeiladau Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed yn cael eu cynnig i ddefnyddwyr eraill gwasanaethau addysg cyn datgan eu bod dros ben i'r Gwasanaeth Stadau a Rheoli Asedau Corfforaethol a fyddai yna'n symud ymlaen i waredu'r adeiladau.

5. Cyflwr Adeiladau Ysgol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'u data rheoli asedau yn cadw gwybodaeth ynghylch cyflwr holl adeiladau'r ysgol (gwaith bywyd cyfan). Maent yn cael eu sgorio fel a ganlyn:

A	Gwasanaethgar, oes a gynhelir gyda chynnal arferol
B	Gweithredol, gydag anghenion cynnal man hanfodol
C	Gweithredol ond gyda rhai anghenion cynnal difrifol a/neu hanfodol
D	Prin yn weithredol, anghenion cynnal difrifol mawr a hanfodol ac mewn perygl o fethu; angen atgyweirio helaeth neu ail osod

Mae sgoriau pob ysgol isod:

Ysgol Maelgwn	Ysgol Nant y Coed
C	C

Gwnaed arolwg tebyg gan EC Harris ar ran llywodraeth Cymru ac roedd eu canfyddiadau yn adlewyrchu rhai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

6. Effaith ar yr Ardal

6.1. Defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol

Nid yw'r dadansoddiad o ddogfennau 'Llogi Adeiladau' 2013/14 a 2014/15 yn dangos unrhyw ddefnydd swyddogol o'r ysgol gan y gymuned, gan Ysgol Maelgwn na Ysgol Nant y Coed.

6.2. Gofal Plant y tu Allan i'r Ysgol

Mae Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed yn darparu brecwast LIC am ddim i ddisgyblion. Hefyd mae grŵp Cylch Meithrin ar safle Ysgol Maelgwn o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9am i 11am ac yn cynnwys tua 18 disgybl. Mae'r ddwy ysgol yn cynnal clybiau ar ôl ysgol, gydag oddeutu 19 plentyn yn mynychu yn Ysgol Maelgwn a 9 plentyn yn Ysgol Nant y Coed.

Mae'r ddwy ysgol yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o glybiau a gweithgareddau addysg anffurfiol gan gynnwys gwersi cerdd, gwersi beicio, yr Urdd, Cyngor Eco, pêl-rwyd, pêl-droed, hoci; ymweliadau a Glan Llyn a Nant BH, cynllun ysgolion iach i enwi ond rhai. Byddai'r cynnig i gyfuno'r ysgolion yn gweld gweithgareddau o'r fath yn parhau gyda chyfleoedd i fwy o ddisgyblion fynychu clybiau fel y dymunant.

7. Effaith ar Gludiant

Dywed y Polisi Cludiant Cartref i'r Ysgol presennol y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cynradd sy'n byw dros ddwy filltir o'u hysgol briodol agosaf.

Yn bresennol mae un disgybl yn cael cludiant am ddim i Ysgol Maelgwn, ar sail cyfrwng Cymraeg, mae disgyblion eraill sy'n cael cludiant i'r ysgol yn gwneud hynny i fynychu'r adnoddau anghenion dysgu ychwanegol sydd ar y safle. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn cael cludiant cartref i'r ysgol o Ysgol Nant y Coed.

Pe byddai'r cynnig i gyfuno'r ysgolion yn cael ei gymeradwyo, bydd y polisi cludiant cartref i'r ysgol presennol yn parhau i gael ei ddilyn ac ni ragwelir y bydd cynnydd mewn darpariaeth cludiant gan y bydd lleoliad yr ysgol newydd o dan yr isafswm o ddwy filltir i ddisgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch.

Bydd y disgyblion hynny a ddisgwylir i fynychu'r unedau ADY ar y safle yn cael cludiant i'r unedau hynny pe bai angen gan gymryd ystyriaeth o'u anghenion penodol ac wedi ei awdurdodi gan swyddogion datganiadau ADY.

Mae Gwasanaethau Addysg yn cyd weithio gyda swyddogion Traffig a Diogelwch Ffyrdd yr awdurdod i ddatblygu cynllun teithio a llwybrau diogel i'r ysgol newydd.

8. Effaith ar Iaith

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell dadansoddiad o'r defnydd o'r Gymraeg yn y ddwy ysgol.

Mae Ysgol Maelgwn yn ysgol ffrwd ddeuol ble mae dau fath o ddarpariaeth yn bodoli ochr yn ochr yn yr ysgol. Mae disgyblion un ai'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bennaf neu ddarpariaeth ddwyieithog cyfrwng Saesneg yn bennaf. Mae Ysgol Nant y Coed yn ysgol gyfrwng Saesneg yn bennaf ac yn darparu defnydd sylweddol o'r Gymraeg trwy'r cwricwlwm ac ethos yr ysgol.

Ni fydd y cynnig i gyfuno Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed yn ffurfiol yn effeithio'n negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg. Trwy gael un corff llywodraethol gydag un set o bolisiau efallai y bydd cyfle i weithio tuag at wella sut mae'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo ac ymestyn trwy'r cwricwlwm ac mewn gweithgareddau mwy anffurfiol o fewn yr ysgol ddwy ffrwd newydd, gyda chefnogaeth barhaus gan yr Awdurdod Lleol.

Mae strategaeth iaith Conwy wedi ymrwmo i ddyhead Llywodraeth Cymru i gynyddu'r niferoedd a chanrannau o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg. Y nod yw i holl ddisgyblion y sir gael sgiliau iaith priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhaid sicrhau darpariaeth briodol i alluogi'r holl ddisgyblion i ddatblygu hyfedredd dwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, mae angen meithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n siaradwyr Cymraeg naturiol a chyflwyno'r Gymraeg i ddysgwyr. Y nod yw sicrhau fod disgyblion a myfyrwyr yn cael symbyliad addysgiadol i feithrin sgiliau a hyder ieithyddol yn y ddwy iaith i'w galluogi i fod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Rydym eisiau annog balchder yn ieithoedd, etifeddiaeth a diwylliant Conwy a Chymru.

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r nod yn eu gweinyddiad, bywyd cymdeithasol a threfniadaeth fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Cyfrifoldeb y cyngor (gyda phenaethiaid a llywodraethwyr) yw sicrhau fod athrawon priodol ar gael fel bod yr amser a roddir ar gyfartaledd i addysgu Cymraeg a Saesneg yn unol â'r cyfnod sylfaen a'r fframwaith.

Dadansoddiad o ddefnyddio'r Gymraeg	Ysgol Maelgwn	Ysgol Nant y Coed
Nifer y disgyblion – llawn a rhan amser (Ionawr 2014)	211 (33)	156 (20)
Categori iaith yr ysgol	Categori 2 Dwy Ffrwd	Categori 4 Cyfrwng Saesneg

(PLASC 2016) Canran y disgyblion sy'n dod o gartrefi ble mae Cymraeg yn cael ei siarad: <i>Nid yn siarad Cymraeg gartref</i>	16%	16%
<i>Siarad Cymraeg gartref</i>	34%	8%
<i>Amherthnasol, nid yn gallu siarad Cymraeg</i>	50%	76%
Y canran a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg	58%	0.5%
O'r rhai sy'n cael asesias athr yn Gymraeg, y ganran o blant a gyflawnodd ar: Cyfnod Sylfaen	100%	N/A
<i>Cyfnod Allweddol 2</i>	93%	71% (Cymraeg ail iaith)
Cyfrwng iaith disgyblion <i>Ar y buarth</i> <i>Clwb Brecwast</i> <i>Clwb ar ôl ysgol</i>	Saesneg/Cymraeg Saesneg/Cymraeg Saesneg/Cymraeg	Saesneg Saesneg Saesneg
(Ystadegau Medi 13) Yr ysgol yn cymryd rhan flynyddol yn: <i>Cylch Meithrin / Ti a Fi</i>	Oes	Na
<i>Eisteddfodau</i>	Oes	Oes
<i>Yr Urdd</i>	Oes	Oes
<i>Gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg arall</i>	Oes	Oes
Mae'r ysgol yn cael ei defnyddio ar gyfer dosbarthiadau Cymraeg i oedolion	Na	Na
Canran yr athrawon sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg:	100%	100%
Canran y Staff cefnogi sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg:	90%	100%
Canran y llywodraethwyr sy'n gallu siarad Cymraeg:	33%	54%
Yr iaith a ddefnyddir fwyaf cyffredin yn ystod: Cyfarfodydd llywodraethwyr Cyfarfodydd CRhA Cyfarfodydd Staff	Saesneg Saesneg Saesneg/Cymraeg	Saesneg Saesneg Saesneg
(rhai 3 oed+) y ganran yn y Ward sy'n: <i>Siarad Cymraeg</i>	Marl 30%	Pensarn 29%
<i>Ddim sgiliau Cymraeg</i>	56%	54%

9. Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r tabl isod yn ystyried yr wybodaeth sy'n bodoli am y ddwy ysgol parthed unrhyw edefyn cydraddoldeb penodol y gallai fod angen ei ystyried yn ystod gweithrediad y cynigion. Mae'r wybodaeth am y ddwy ysgol yn dangos poblogaeth ysgol amrywiol ac nid oes dim i ddangos y byddai unrhyw ddisgybl dan anfantais pe bai'r cynnig i gyfuno'r ddwy ysgol yn ffurfiol yn mynd yn ei flaen; gan gofio y byddant yn aros ar yr un safle ac ni fydd fawr newid mewn arferion dyddiol i ddisgyblion.

Dywed adroddiadau arolwg ESTYN Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed fod gan yr ysgolion amgylchedd diogel a chynhwysol ar gyfer disgyblion a fyddai'n parhau pe bai'r ysgolion yn cyfuno'n ffurfiol.

Dywed adroddiad ESTYN Ysgol Maelgwn o 2013 *"Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Caiff y disgyblion gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan arweiniol yn ystod cyfnodau addoli ar y cyd boreol, ynghyd â chyfleoedd i fyfyrion yn ystod y cyfnodau 'munud i feddwl' yn y dosbarthiadau. Mae cynlluniau fel 'Mêts grêt' a'r 'wythnos barchu eraill' yn meithrin agweddau cadarnhaol gan ddisgyblion at ei gilydd a synnwyr o gyfrifoldeb dros eraill."*

Dywed canfyddiadau arolwg ESTYN Ysgol Nant y Coed o 2013

"Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle caiff disgyblion yr un cyfle i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd croesawgar, sy'n adlewyrchu ethos a gwerthoedd yr ysgol."

Elfen Cydraddoldeb	Ysgol Maelgwn
Hil	(PLASC 2014) Yn Ysgol Maelgwn mae 95% o'r disgyblion sydd dros 5 oed yn 'Wyn Prydeinig'. Dywed ffurflen PLASC 2014 hefyd fod 68% o ddisgyblion Ysgol Maelgwn yn 'Gymry', 30% yn 'Brydeinig' a 2% yn 'Saeson'. Mae gwybodaeth ynghylch hil yn cael ei ystyried yn 'ddata sensitif' ac ar y cyfryw, mae gwybodaeth am ddisgyblion dan 5 oed yn cael ei ddal yn ôl.
Anabledd	(PLASC 2014) Yn bresennol mae tua 29% o ddisgyblion Ysgol Maelgwn yn cael rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, o'r rhain, bechgyn yw'r mwyafrif.
Rhyw	(PLASC 2014) O'r 202 disgybl sy'n mynychu'r ysgol yn bresennol yn llawn amser mae 97 yn fechgyn a 105 yn ferched. Er mwyn canfod a yw bechgyn neu ferched yn perfformio yn well na'i gilydd gallwn edrych ar ddata ar lefel ysgol, y gellir wedyn ei gymharu â'r data a roddwyd ar lefel Conwy a lefel Cymru gyfan. Yn Ysgol Maelgwn bu i'r merched berfformio'n well na'r bechgyn yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2; fodd bynnag wrth gymharu gyda chyfartaledd sirol a chenedlaethol, bu i'r bechgyn a merched yn y cyfnod sylfaen danberfformio, ac yng nghyfnod allweddol 2 bu i'r bechgyn a merched yn yr ysgol gyflawni'n uwch wrth gymharu â chyfartaledd sirol a chenedlaethol.
Oedran	Mae Ysgol Maelgwn yn ysgol sy'n darparu addysg llawn amser i ddisgyblion 4-11 oed ac addysg feithrin rhan amser i ddisgyblion 3-4 oed. Yn unol ag argymhellion cenedlaethol, ni ddarperir gwybodaeth 'sensitif' e.e. ethnigrwydd, cenedl, ar gyfer plant dan 5 oed.
Crefydd a chredo	(PLASC 2014) Nid yw Ysgol Maelgwn yn ysgol enwadol, sy'n cael ei adlewyrchu yng nghredo crefyddol disgyblion. Yn Ysgol Maelgwn, nodir nad oes gan y mwyafrif o ddisgyblion (46%) 'ddim crefydd', gyda 40% yn 'Gristnogion'. Mae'r 14% sy'n weddill yn, 'Anglicaniaid' 'Bwdhaidd', 'Hindŵ', 'Fethodistiaid', 'Mwslim', 'crefyddau eraill' neu 'Catholigion'.

Tueddfryd rhywiol	Amherthnasol
Iaith Cymraeg	Gweler 'Dadansoddiad Iaith' Ysgol Maelgwn (Adran 8)
Arall (nodwch)	(PLASC 2014) 16% o ddisgyblion Ysgol Maelgwn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Elfen Cydraddoldeb	Ysgol Nant Y Coed
Hil	(PLASC 2014) Yn Ysgol Nant y Coed mae 91% o'r disgyblion yn 'Wyn Prydeinig'. Dywed ffurflen PLASC 2014 fod 53% o'r disgyblion yn 'Gymry', 40% yn 'Brydeinig' a'r 7% sy'n weddill yn 'Saeson' neu yn 'Arall'. Mae gwybodaeth ynghylch hil yn cael ei ystyried yn 'ddata sensitif' ac ar y cyfryw, mae gwybodaeth am ddisgyblion dan 5 oed yn cael ei ddal yn ôl.
Anabledd	(PLASC 2014) Yn bresennol mae tua 25% o ddisgyblion yn cael rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, o'r rhai sy'n cael cefnogaeth yn Ysgol Nant y Coed mae 50% yn fechgyn a 50% yn ferched.
Rhyw	(PLASC 2014) O'r 145 disgybl sy'n mynychu'r Ysgol Nant y Coed yn bresennol yn llawn amser mae 67 yn fechgyn a 78 yn enethod. Er mwyn canfod a yw bechgyn neu enethod yn perfformio yn well na'i gilydd gallwn edrych ar ddata ar lefel Ysgol, y gellir wedyn ei gymharu a'r data a roddwyd ar lefel Conwy a lefel Cymru gyfan. Yn Ysgol Nant y Coed bu i fechgyn a merched gyflawni'n uwch wrth gymharu â chyfartaledd sirol a chenedlaethol yn y cyfnod sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2 bu i fechgyn berfformio yn well na chyfartaledd sirol a chenedlaethol, tra bod merched wedi tanberfformio ychydig o gymharu; ar y cyfan mae disgyblion yn cyflawni yn unol â chyfartaledd sirol a chenedlaethol.
Oedran	Mae Ysgol Nant y Coed yn ysgol sy'n darparu addysg llawn amser i ddisgyblion 4-11 oed ac addysg feithrin rhan amser i ddisgyblion 3-4 oed.
Crefydd a chredo	(PLASC 2014) Nid yw Ysgol Nant y Coed yn ysgol enwadol, sy'n cael ei adlewyrchu yng nghredo crefyddol disgyblion. Yn Ysgol Nant y Coed, nodir nad oes gan y mwyafrif o ddisgyblion (58%) 'ddim crefydd', gyda 35% yn 'Gristnogion'. Mae'r 7% sy'n weddill yn 'Fethodistiaid', 'Mwslim', 'crefyddau eraill' neu 'Catholigion'.
Tueddfryd rhywiol	Amherthnasol
Iaith Cymraeg	Gweler 'Dadansoddiad Iaith' Ysgol Nant y Coed (Adran 8)
Arall (nodwch)	(PLASC 2014) Oddeutu 23% o ddisgyblion Ysgol Nant y Coed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Rhan 2

Ymgynghoriad ar y dewisiadau ar gyfer trefniadau addysgol dros dro ar y ddau safle ysgol presennol o fis Medi, 2016 tan bydd yr adeilad yr ysgol newydd ar gael.

10. Disgrifiad o'r cynigion

Os bydd Cabinet Conwy yn cymeradwyo'r cynnig a amlinellir yn Rhan 1 o'r ddogfen ymgynghori hon, bydd yr ysgol ardal newydd yn gweithredu o safleoedd presennol Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed hyd nes y bydd yr adeilad ysgol newydd ar safle Esgyryn ar gael. Yr amcangyfrif mwyaf diweddar ar gyfer hyn yw y Pasg, 2017.

Mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn ceisio barn rhanddeiliaid ar ddau drefniant amgen y gellir eu rhoi ar waith.

10.1 Y dewisiadau ar gyfer lleoli y disgyblion ar y ddau safle presennol hyd nes bydd yr adeilad newydd ar gael i'w ddefnyddio.

Y ddau opsiwn a gyflwynir ar gyfer ymgynghoriad yw:

- 1a Y byddai'r disgyblion Cyfnod Sylfaen (babanod) gael eu haddysgu ar safle presennol Ysgol Nant y Coed ac y byddai'r disgyblion Cyfnod Allweddol 2 (iau) yn cael eu haddysgu ar safle Ysgol Maelgwn presennol.

NEU

3. Y byddai'r disgyblion gan fwyaf yn cael eu haddysgu ar eu safleoedd presennol, ond efallai mewn gwahanol ddosbarthiadau a chyda gwahanol athrawon.

Opsiwn 1a uchod yw'r opsiwn a ffafrir gan y Corff Llywodraethol Dros Dro .

O dan opsiwn 3 , byddai'r disgyblion presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn eu safle presennol. Fodd bynnag, er mwyn darparu ar gyfer y strwythur staffio newydd, efallai y bydd rhai disgyblion yn newid ystafelloedd dosbarth a newid athrawon. Gall rhai dosbarthiadau newid hefyd. Gan y byddai disgyblion o'r un oedran yn cael eu rhannu ar draws dau safle , ni fyddai'n bosibl i ailadrodd y cyfuniadau o ddosbarth ac athrawon a fydd yn bodoli unwaith bydd yr adeilad ysgol newydd ar gael.

Cafodd manteision ac anfanteision yr opsiynau eu hystyried yn fanwl gan y Corff Llywodraethol Dros Dro ac fe'u crynhoir yn Nhabl 2A drosodd.

Tabl 2A- Manteision ac anfanteision y ddau opsiwn sy'n destun ymgynghoriad			
Opsiynau	Manteision (prif yrrwyr – cynnal/gwella safonau addysgol)	Anfanteision	Amgylchiadau lliniarol eraill
<u>Opsiwn 1a</u> Babanod ar safle Nant y Coed / Adran Iau ar safle Maelgwn Infants on 'Nant y Coed' site / Juniors on 'Maelgwn' site	• Y disgyblion yn ffitio ar y ddwy safle fel yma. • Y disgyblion yn eu dosbarth cywir ac yn cael cyfle i setlo hefo'u cyfoedion/athrawon - dilyniant (disgyblion llawer hapusach i weithio os ydynt yn cael cyfle i gartrefu mewn dosbarth hefo'u ffrindiau a hefyd gall safonau ostwng os oes athro gwahanol yn y dosbarth oherwydd eu hadnabyddiaeth o'r disgyblion newydd) • Yr athrawon yn eu dosbarth cywir. • Yr athrawon yn gallu cydweithio ar gwricwlwm newydd yr ysgol. • Byddwn yn fwy parod ar gyfer yr arolwg ac fe fydd tystiolaeth yn llyfrau'r disgyblion. • Cyfle i'r staff a fydd yn cyd weithio ddod i adnabod eu gilydd yn well. • Fe fydd y meddylfryd o Ni a Nhw' wedi mynd • Staff yn cael amser i setlo yn eu swydd/dosbarth newydd • Y tîm rheoli yn gallu cychwyn ar eu gwaith o'r cychwyn. • Byddwn yn gallu setio yn y pynciau craidd o'r cychwyn • Bydd y symud i'r adeilad newydd yn llai o fwrddwn gan mai mond newid adeilad y byddwn yn hytrach na newid adeilad, dosbarth ac athrawon. • Byddwn yn gallu adnabod grwpiau targed yn gynt a gosod strategaethau yn eu lle • Bydd y Cymhorthyddion yn eu lle cywir hefo'r athro/wes cywir ac yn gallu cychwyn bondio'n syth • Ymdeimlad o fod yn rhan o Awel y Mynydd yn lle NyC a M efo dillad newydd! • Dechrau Newydd / Fresh Start • Cystadleuthau megis Pel-droed / Pel-rwyd / Urdd - gallu ymarfer hefo'u gilydd	• Gwrthwynebiad rhieni • Rhai yn gorfod symud pethe • Rhai staff yn gorfod symud ddwywaith • plant ALN/ASD yn cael trafferth hefo newid • Teuluoedd ar ddwy safle	- Help gan y sir i symud adnoddau o safle i safle ac amser i'w wneud? - Paratoi y disgyblion ag anhawsterau drwy ymweld â'r safleoedd o flaen llaw. - Bysio disgyblion o un safle gollwng i'r llall ac yn ei ôl. - Sicrhau bod clybiau brecwast yn cychwyn 1/4 awr yng nghynt. - clybiau ar ôl ysgol ar gael hefyd.

Tabl 2A- Manteision ac anfanteision y ddau opsiwn sy'n destun ymgynghoriad			
Opsiynau	Manteision (prif yrrwyr – cynnal/gwella safonau addysgol	Anfanteision	Amgylchiadau lliniarol eraill
<u>Opsiwn 3</u> Both 'Nant y Coed' & 'Maelgwn' site set up stay as they are (NYC Bilingual & Maelgwn Dual Stream)	- Rhieni ddim yn gorfod mynd ar plant i safle gwahanol os oes ganddynt frodyr a chwiorydd - Mwyafrif o staff ddim yn gorfod symud dosbarth. - Disgyblion ag anhawsterau ASD ddim yn gorfod addasu.	• 19 dosbarth yn bresenol ar y ddwy safle ond dim ond 16 yn yr ysgol newydd - diffyg o dri athro. • Y disgyblion ddim yn eu dosbarth cywir ac felly ddim yn cael cyfle i fod hefo'u cyfoedion • Yr athrawon yn methu cydweithio ar gwricwlwm newydd yr ysgol yn effeithiol. • Ni fyddwn yn barod ar gyfer yr arolwg ac fe fydd tystiolaeth yn llyfrau'r disgyblion yn amrywiol a gwahanol - dim cysondeb. • Ni fydd cyfleoedd rhwydd i'r staff a fydd yn cyd weithio ddod i adnabod eu gilydd. • Staff ddim yn cael amser i setlo yn eu swydd/dosbarth newydd • Ni fydd y tîm rheoli yn gallu cychwyn yn effeithiol ar eu gwaith o'r cychwyn gan fod yr adrannau arwahan. • Bydd y symud i'r adeilad newydd yn fwrddwn gan y byddem yn newid adeilad y dosbarth ac athrawon mewn un go. • Ni fyddwn yn gallu adnabod grwpiau targed gan y byddent ar chwal ac felly dim digon o staff i'w targedu yn effeithiol. • Ni fydd ymdeimlad o fod yn rhan o Awel y Mynydd yn hytrach byddwn dal yn NyC a M efo dillad run fath! • Bydd cystadleuthau megis Pel-droed / Pel-rwyd / Urdd - yn anodd.	cost 3 athro ychwanegol - 60k mwy o amser ddigyswllt i'r UDRh - ?K

11. Gwerthuso Opsiynau

Ymgwymerwyd â dadansoddiad pellach drwy werthusiad opsiynau cyn i'r Corff Llywodraethol Dros Dro wneud eu cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddechrau proses ymgynghori.

Ymgwymerwyd yr arfarniad o opsiynau gyda rhieni, athrawon, staff nad ydynt yn addysgu, staff o'r Uned Cymorth iaith Gymraeg, staff o'r tîm y Blynnyddoedd Cynnar a staff o Adran Ymgynghoriaeth Gwasanaethau'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau Conwy.

Nododd y broses gwerthuso opsiynau fod y ddau opsiwn sy'n destun i'r ymgynghoriad yn derbyn sgoriau tebyg iawn. Roedd opsiynau eraill wedi cael eu hystyried i ddechrau ond dilëwyd hwy o ganlyniad i gael sgôr isel yn yr arfarniad neu o ganlyniad i adeiladau'r ysgol heb fod yn addas nac yn ddigonol i ddarparu ar gyfer yr opsiynau hynny.

Ymgwymerwyd â'r gwerthusiad opsiynau ar y sail mai opsiwn 3 yw'r opsiwn diodyn ac fel y cyfryw yn sgorio fel ddim gwell a dim gwaeth na'r trefniadau presennol ar gyfer pob maen prawf.

Y gwahaniaethau mwyaf nodedig rhwng y ddau opsiwn yn ystod y broses arfarnu oedd bod gan opsiwn 1a sgôr uchel ar gyfer y maen prawf ar addysg tra bod Opsiwn 3 sgorio'n uwch o dan y meini prawf ar gyfer y Gymuned, iaith a Thrafnidiaeth/Traffig.

Dylid nodi bod ymgynghoriad ar gamau lliniaru wedi eu hymgymryd ar gyfer y meini prawf ar Gludiant / Traffig a'r iaith Gymraeg, a fyddai'n arwain at sgoriau uwch am Opsiwn 1a petaent yn cael eu gweithredu.

Mae crynodeb o ganlyniadau'r Gwerthusiad Opsiynau ar gyfer y ddau opsiwn a ystyriwyd i'w gweld yn Tabl 2B isod

Tabl 2B – Crynodeb o Ganlyniadau'r Gwerthusiad Opsiynau					
	Pwysoli y cytunwyd arno	Optiwn 1a Babanod ar safle 'Nant y Coed / Iau ar safle 'Maelgwn'		Optiwn 3 Disgyblion yn aros yn eu safleoedd presenol – Dewis di-odyn	
		Craidd	Wedi ei bwysoli	Craidd	Wedi ei bwysoli
Adeiladau	10	3	30	3	30
Cymuned	13	2	26	3	39
Addysg	40	3.74	149.6	3	120
AD/Staffio	14	3	42	3	42
Iaith	13	2	26	3	39
Cludiant / Traffic	10	1.66	16.6	3	30
Sgôr cyfanswm yr opsiwn (Uchafwm o 600 ar gael)		290.2		300	
Cyfanswm sgôr gyda cludiant ar gyfer yr opsiynau amgen fel lliniariad (côst £ 13,000)		294.2		300	
Total score with bullet points in the language assessment implemented as mitigation		307.2		300	

12. Asesiad Risg

Nododd y broses Gwerthuso Opsiynau fod y ddau opsiwn wedi derbyn sgoriau tebyg iawn. Nid oedd y Corff Llywodraethol Dros Dro yn teimlo bod y dystiolaeth hon ei ben ei hun yn ddigonol i ganiatáu iddynt ddod i benderfyniad.

Felly, cynhaliodd y Corff Llywodraethol Dros Dro dadansoddiad o risgiau posibl pob un o'r ddau opsiwn er mwyn asesu a yw un neu'r llall o'r dewisiadau yn dwyn mwy o risg. Nodwyd risgiau o dan y categorïau canlynol -

- Risg i Enw Da yr Ysgol a'r Corff Llywodraethu Dros Dro
- Risgiau Addysgol
- Risgiau Ariannol
- Risgiau Gweithredol

Mae canlyniadau'r dadansoddiad risg yn cael eu dangos yn y tablau Risg ar y tudalennau canlynol.

Asesodd y Corff Llywodraethu dros dro risgiau cynhenid pob dewis yn erbyn y risgiau a nodwyd. Mae'r risgiau cynhenid yn cael eu dangos yng ngholofn D ar gyfer opsiwn 1a a colofn E ar gyfer opsiwn 3. Mae'r rhain yn y sgoriau risg os na chymerir unrhyw gamau i leihau'r risg.

Roeddent wedyn wedi archwilio pa fesurau y gellid eu rhoi ar waith a allai leihau'r tebygolrwydd y bydd unrhyw risg yn codi neu a allai leihau'r effaith pe bai risg yn digwydd. Mae'r ffactorau lliniaru hyn i leihau'r risg wedi'u hamlinellu yng ngholofn F.

Yn olaf, sgoriwyd y risgiau ar gyfer pob opsiwn eto gan ystyried y mesurau lleihau risg y gellir eu rhoi ar waith. Mae'r sgoriau yn cael eu dangos yng ngholofn G ar gyfer opsiwn 1a a colofn H ar gyfer opsiwn 3. Rhain yw'r sgoriau risg ar ôl i'r mesurau lleihau risg gael eu hystyried.

Mae'r matrices drosodd yn dangos y fethodoleg sgorio ar gyfer yr asesiad risg. Mae'r tablau ar y tudalennau canlynol yn dangos manylion yr asesiad risg.

Meini Prawf Asesu Risg

TEBYGOLRWYDD ↑	Digwyddiad bron yn sicr o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau	>70%	Bron yn Sicr	A	1					
	Digwyddiad yn debygol o ddigwydd yn y rhan fwyaf o amgylchiadau	30-70%	Tebygol	B	2					
	Digwyddiad o bosib yn digwydd ar ryw adeg	10-30%	Posibl	C	3					
	Digwyddiad yn annhebygol a gallai ddigwydd ar ryw adeg	1-10%	Anhebygol	D	4					
	Digwyddiad prin a allai ddigwydd dim ond mewn amgylchiadau eithriadol	<1%	Prin	E	5					
						5	4	3	2	1
						Isel iawn	Isel	Canolig	Uchel	Uchel iawn
Amser/Cost/Amcanion						Cynnydd ddi-nod i amser neu gost prosiect. Effaith fechan iawn ar gwmpas neu amcanion y prosiect	<5% o gynnydd i amser neu gost prosiect. Mân effaith ar gwmpas neu amcanion y prosiect	5% - 20% o gynnydd i amser neu gost prosiect. Effaith fawr ar gwmpas neu amcanion prosiect sydd angen cymeradw aeth noddwr	20% - 50% o gynnydd i amser neu gost prosiect. Effaith fawr ar gwmpas neu amcanion prosiect sy'n annerbyniol i noddwr	>50% o gynnydd i amser neu gost prosiect. Prosiect yn methu â bodloni'r amcanion neu gwmpas
Perfformiad Gwasanaeth						Mân wallau neu amhariad	Peth amhariad i weithgareddau / cwsmeriaid	Amharu ar weithgaredau craidd / cwsmeriaid	Amhariad sylweddol i weithgaredau craidd. Targedau allweddol yn cael eu methu	Methu cyflenwi gweithgaredau craidd. Cyfaddawdu nodau strategol
Enw Da						Gellid ad-ennill ymddiriedaeth heb fawr o ymdrech neu gost	Gellid ad-ennill ymddiriedaeth gyda dyraniad o adnoddau o fewn cyllidaebu	Mae ad-ennill ymddiriedaeth yn gofyn am awdurdodi Costau uwchlaw cyllidaebau	Gellid ad-ennill ymddiriedaeth ar gost sylweddol a sylw rheolwyr	Ymddiriedaeth wedi ei niweidio yn sylweddol ac adferiad llwyr yn amheus ac yn gostus
Cost ariannol (£)						<£10k	£10k - £20k	£20k - £30k	£30k - £40k	>£40k
EFFAITH						→				

Cofrestr Risg

Isel	
Canolig	
Uchel	
Critigoll	

Trefniadau dros dro Cyffordd Llandudno Medi, 2016

A	B	C	D	E	F	G	H	I
Cyf.	Disgrifiad o'r risg	Canlyniad	Sgôr / lefel y risg cynhenid ar gyfer Opsiwn 1a	Sgôr / lefel y risg cynhenid ar gyfer Opsiwn 3	Mesurau lleihau risg	Risg ar gyfer opsiwn 1a ôl i fesurau gael eu gweithredu	Risg ar gyfer opsiwn 3 ôl i fesurau gael eu gweithredu	Sylwadau

Risgiau i enw da y Corff Llywodraethol Dros Dro / Ysgol

RR-1	Mae rhieni yn teimlo nad yw eu barn a'u dymuniadau rhywun wedi cael gwrandawriad	Byddai'r Corff Llywodraethol Dros Dro a'r ysgol newydd yn colli ewyllys da rhieni hyd yn oed cyn iddi gael ei sefydlu	B2	C4	Byddai angen cael ymgyrch gref barhaol o gyhoeddusrwydd a gwybodaeth am y sail resymegol dros y penderfyniad ar ran y corff llywodraethu dros dro	C4	C4	
RR-2	Gallai rhieni sydd â phlant sy'n frodyr neu chwiorydd ar ddau safle ei chael yn anodd i fynd â'u plant i'r ysgol	Byddai'r Corff Llywodraethol Dros Dro a'r ysgol newydd yn colli ewyllys da rhieni hyd yn oed cyn iddi gael ei sefydlu	B3	E5	Cyfnod hirach yn y bore a gyda'r nos ar gyfer trosglwyddo a chasgliadau ac is-bwyllgor i asesu caledi gwirioneddol. Hefyd, clwb brecwast yn y ddau safle. Bydd y pennaeth hefyd yn ystyried ymestyn oriau grwpiau anogaeth . Bydd yr ysgol yn penodi Swyddog Cyswllt Teuluol gyda chyllid grant Amddifadedd .Mae cyllideb o hyd at £ 40k gael gan y Gwasanaethau Addysg i gynorthwyo rhieni a all fod â caledi gwirioneddol wrth gael mynediad i'r ddau safle.	C4	E5	Mae cyllideb o hyd at £ 40k ar gael gan y Gwasanaethau Addysg i gynorthwyo rhieni a allai fod yn dioddef anhawster gyda'r trefniadau

Risgiau Addysgol

ER-1	Y risg y byddai morâl y staff yn cael ei golli o ganlyniad i penderfyniad nad oedd yn unol â'u barn broffesiynol .	Gallai addysgu disgyblion ddioddef a gallai safonau ostwng	E4	A4	Byddai angen i'r Pennaeth sicrhau bod anghenion staff yn cael eu diwallu'n ddigonol yn ystod y cyfnod dros dro cyn symud i adeilad yr ysgol newydd . Byddai cydnabyddiaeth o'r broses newid a'r effaith mae'n ei chael ar unigolion. Byddai angen rhoi mecanweithiau ar waith i gefnogi staff drwy'r cyfnod trosiannol. Efallai y bydd cost ariannol.	E4	B4	
ER-2	Gallai unrhyw gynnydd newydd achosi anawsterau trefniadol ar gyfer y Tîm Rheoli Uwch yn yr Ysgol	Gallai addysgu disgyblion ddioddef a gallai safonau ostwng	E4	A2	Byddai angen i'r Pennaeth sicrhau bod cynlluniau a gweithdrefnau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau y gall y Tîm Rheoli Uwch weithredu'n effeithiol i ddiwallu anghenion staff a disgyblion yn ystod y cyfnod dros dro cyn symud i'r adeilad ysgol newydd.	E4	A2	
ER-3	Y risg y byddai torri'r uchafswm maint dosbarth statudol o 30 o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen .	Byddai'r ysgol yn torri'r maint dosbarth statudol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Gallai'r ysgol fod yn destun cerydd gan Lywodraeth Cymru	E4	A1	Mae un dosbarth yn opsiwn 3 yn cael ei ddangos fel un a allai gael 31 o ddisgyblion. Gellid lliniaru hyn drwy gynnig i rieni fod eu plentyn yn cael ei addysg ar y safle ysgol arall. Os nad oes rhieni yn dymuno i wneud y newid hwn, byddai'n rhaid i'r ysgol weld a allai unrhyw strwythur ddosbarth amgen liniaru'r mater neu byddai angen gyflogi athro/athrawes a CD ychwanegol.	E4	C1	

ER-4	Disgyblion a staff ddim yn eu grwpiau ymyrraeth gorau / dosbarthiadau 'cywir' gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol	Yn peryglu safonau a chanlyniadau disgyblion; cynllunio'r cwricwlwm a darpariaeth; lles	D4	A2	Byddai lliniaru'r risg hon yn gofyn am gynllunio rhagorol a threfniant heb unrhyw gamgymeriadau. Cyflogi Cynorthwyyr Addysgu i gefnogi disgyblion - ar gost .	D4	A3	Cost cyflogi staff ychwanegol
ER-5	Hyrwyddo senario o 'Ni' (Maelgwn) a 'Nhw' (Nant y Coed) ymysg disgyblion, staff a rhieni	Gweithio Tîm a pherthnasau gwaith Gwael. Ymrannol i ddisgyblion, staff, rhieni a'r gymuned	D4	B3	Byddai angen sicrhau bod y ddau safle yn teimlo'n rhan o'r ysgol Awel y Mynydd a byddai angen trefnu weithgareddau a phrosiectau traws safle.	D4	B4	
ER-7	Rhwystrau corfforol ac amser i staff y Cyfnod Sylfaen i weithio gyda'i gilydd ac i staff CA2 i weithio gyda'i gilydd er lles safonau disgyblion.	Cynllunio gwael yn peryglu safonau disgyblion	E5	B2	Byddai lliniaru'r risg hon yn gofyn am gynllunio rhagorol a threfniant heb unrhyw gamgymeriadau. Cyflogi Cynorthwyyr Addysgu i gefnogi disgyblion - ar gost .	E5	B2	
ER-8	Canlyniadau arolygu gwael mewn 2 flynedd	Morâl gwael yng nghymuned yr ysgol. Colli disgyblion gan arwain at golli gyllideb. Categori Estyn	D1	B1	Arweinyddiaeth a gwaith tîm ar draws yr ysgol, disgwyliadau uchel a sefydliad rhagorol, cynllunio a darparu gwybodaeth yn ogystal â chyfleoedd i ddisgyblion gyrraedd eu potensial.	D1	B1	
ER-9	Risg o ddirywiad yr iaith Gymraeg Standards in the school	Byddai safonau Cymraeg yn yr ysgol yn dirywio	C4	D4	Ffactorau lliniaru a nodwyd gan yr asesiad o effaith yr iaith Gymraeg	E4	E4	

Financial Risk

FR-1	Risg bod un neu fwy o'r dosbarthiadau yn y Cyfnod Sylfaen yn fwy na 30	Byddai'r ysgol torri'r maint dosbarth statudol uchaf a byddai angen mwy o staff addysgu er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith	E5	C3	Gofyn i rieni pe byddent yn dymuno trosglwyddo eu plentyn i'r safle arall i leihau maint dosbarthiadau . Archwilio a fyddai ail- gynllunio'r dosbarthiadau yn bosibl fel bod y risg hon yn cael ei dileu.	E5	C3	Gallai athro/athraw es gostio £20k i £30k dros ddau dymor.
------	--	---	----	----	---	----	----	--

Operational Risks

OR-2	Tagfeydd traffig yn yr ysgol yn y bore a'r prynhawn ar amseroedd casglu a gollwng.	Materion lechyd a Diogelwch / cwynion. Effaith ar amserlen yr ysgol .	B4	B4	Cyhoedduswydd i rieni, gwasanaeth bws (mini) rhwng y safleoedd ysgol, hyrwyddo cerdded a beicio. Ymestyn oriau agor yn y bore a'r prynhawn.	C4	C4	
------	--	---	----	----	---	----	----	--

Canlyniad y dadansoddiad risg oedd bod opsiwn 3 wedi ei nodi gyda 4 o risgiau critigol hyd yn oed ar ôl i'r camau lliniaru gael eu hystyried . Roedd y risgiau i gyd yn ymwneud â risg i addysg y disgyblion.

Nid oedd unrhyw risgiau critigol wedi eu nodi ar gyfer opsiwn 1a . Fodd bynnag, roedd un risg mawr a phedwar risg Cymedrol .

10. Ymgynghoriad

Mae'r ddogfen hon yn nodi cychwyn yr ymgynghoriad. Mae hyn yn galluogi rhanddeiliaid sydd â diddordeb i fynegi eu barn ar y cynnig cyn cyhoeddi unrhyw rybuddion statudol. Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn para hyd 22 Mehefin, 2016. Fel y soniwyd uchod, bydd y Corff Llywodraethol Dros Dro yn cynnal achlysur galw heibio rhwng 03:00-7:00, dydd Iau, y 26ain o Mai a 09:30-1:00, Dydd Gwener, y 27ain o Mai yng Nghanolfan Fusnes Conwy i'ch helpu i ddeall sut y gall y gwahanol opsiynau effeithio ar addysg y disgyblion. Bydd staff o Wasanaethau Addysg Conwy ar gael i gymryd eich ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae gan y Cyngor y grym i gynnig ymestyn neu gau ysgolion. Os cyhoeddir y cynigion ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae cyfnod statudol o 28 diwrnod pryd y gellir mynegi barn a gwrthwynebu yn ffurfiol.

Ni fydd unrhyw ymatebion a geir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried fel gwrthwynebiadau ffurfiol. Er mwyn i ymatebion gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau ffurfiol rhaid eu gwneud yn ysgrifenedig neu ar e-bost o fewn y cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod.

Os ceir gwrthwynebiad ai peidio o fewn y cyfnod statudol, bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan yr awdurdod ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod.

Sut allwch chi roi sylwadau / gofyn mwy o gwestiynau ynglŷn â'r cynnig?

- Trwy fynychu'r achlysur rhanddeiliaid wedi ei drefnu gan y Corff Llywodraethol Dros Dro a chyflwyno eich sylwadau ysgrifenedig.
- Trwy lenwi'r holiadur ynghlwm a'i anfon at Richard Ellis Owen, Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg), Gwasanaethau Addysg, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL
- Gall rhai sydd eisiau fersiwn electronig anfon e-bost at school.modernisation@conwy.gov.uk
- Trwy ysgrifennu at Richard Ellis Owen, Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg), Gwasanaethau Addysg, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL
- Trwy anfon e-bost o'ch barn at school.modernisation@conwy.gov.uk

Ymgynghoriad
ar y trefniadau diwygiedig ar gyfer Cyfuno Arfaethedig
Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed
Cyffordd Llandudno, Conwy a'r Trefniadau dros dro hyd nes bydd yr Adeilad
Ysgol newydd ar Safle Esgyryn ar Gael i'w Feddiannu

DYCHWELER ERBYN 22 Mehefin 2016 FAN BELLAF

At: Richard Ellis Owen, Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg),
 Gwasanaethau Addysg, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL

Ffacs: 01492 541311

Gallwch hefyd anfon eich barn trwy e-bost at: School.Modernisation@conwy.gov.uk

Gan na fydd yr adeilad newydd ar safle Esgyryn yn agor mewn pryd ar gyfer 1af Medi bydd angen rhoi trefniadau dros dro ar waith gan ddefnyddio'r ddau safle presennol hyd nes bydd yr adeilad ar gael .

Rwy'n:

Riant plentyn sy'n bresennol yn yr ysgol

☐

Rhiant plentyn oedd yn flaenorol yn yr ysgol

☐

Rhiant plentyn ysgol arall

☐

Aelod o staff yn yr ysgol

☐

Aelod o staff mewn ysgol arall

☐

Llywodraethwr yn yr ysgol

☐

Llywodraethwr mewn ysgol arall

☐

Plaid arall â diddordeb

☐

Enw'r ysgol arall neu blaid diddordeb

Ydych chi wedi darllen y ddogfen ymgynghori? DO / NADDO (Dilëer fel y bo'n briodol)

A wnaethoch chi fynychu digwyddiad cyhoeddus y Corff Llywodraethu Dros Dro i ?
 DO / NADDO (Dilëer fel y bo'n briodol)

Graddiwch y meini prawf canlynol o ran eu pwysigrwydd gydag 1 i'r rhai mwyaf pwysig a 6 ar gyfer y lleiaf pwysig .

Maen Prawf	Gradd o ran pwysigrwydd o 1 (y rhan fwyaf pwysig) i 6 (y lleiaf pwysig)
Safonau Addysgol	
Trefniadau teithio	
Yr iaith Gymraeg	
Gofal cyn ac ar ôl ysgol	
Addasrwydd adeiladau	
Staffio	

Mae fy sylwadau fel a ganlyn:

--

--

This image shows a blank sheet of white paper with horizontal ruling lines. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There are no margins, text, or other markings on the paper.
